**Adfywio CPT: Adroddiad Cwblhau Prosiect**

Sefydliad y Prosiect: Awel Aman Tawe

Enw'r Prosiect: Hwb Y Gors

Dyddiad dechrau'r prosiect: 1 Mehefin 2021

Dyddiad gorffen y prosiect: 31Rhagfyr 2021

Dyddiad yr adroddiad: 14 31Rhagfyr 2021

Rhestr dogfennau atodedig: NPT08 document

Mae'n ofyniad gorfodol i gwblhau'r ddogfen hon ar ddiwedd y prosiect. Pwrpas yr adroddiad yw darparu dogfen ar lefel y prosiect i ddarparu tystiolaeth ynghylch pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn y Cynllun Busnes gwreiddiol a ddarparwyd gan y Bartneriaeth Leol a'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ystod oes y prosiect, a sut y mae wedi cyfrannu at nodau ac amcanion y Strategaeth Ddatblygu Leol y Bartneriaeth Leol. Rhoddir manylion hefyd am berfformiad y prosiect yn wyneb costau a gynlluniwyd / cymeradwywyd, amserlenni cyflenwi a dangosyddion Perfformiad allweddol.

1. Cefndir: (rhowch fanylion cryno'r prosiect – 250 max)

Y prosiect yw adnewyddu hen Ysgol Gynradd Cwm-gors yn ganolfan gelfyddydau, addysg a menter carbon isel, Hwb y Gors. Roedd y prosiect hwn ar gyfer recriwtio Swyddog Ymgysylltu a Thrafnidiaeth, a fyddai'n ymgysylltu'r gymuned leol a'r gymuned gelfyddydol â Hwb y Gors ac yn dechrau ffurfio syniadau a chynlluniau er mwyn iddyn nhw ddefnyddio Hwb y Gors ar ôl i'r adeilad ddod yn barod. Roedd gan rai grwpiau gyfle i roi mewnbwn i'r cynllun, er mwyn i'r adeilad allu ateb eu gofynion.

Rôl y Swyddog Ymgysylltu a Thrafnidiaeth oedd ymgymryd â gwaith ymgysylltu a hefyd ymchwilio cynlluniau i sefydlu clwb rhannu ceir trydan. Mae Emma wedi creu adroddiadau trafnidiaeth i ddilyn yr ymchwil a'r cynnydd ar gynlluniau trafnidiaeth AAT. Mae hi wedi mynychu cyfarfodydd COMO (Comobility) UK ac wedi ymgymryd â gwaith ymchwil helaeth gyda chlybiau ceir sy'n bodoli eisoes. Crëwyd adroddiad yn amlinellu'r modelau presennol, y darparwyr llwyfannau a thechnoleg, y costau a'r holl fanylion cysylltiedig. Ar ôl gwneud ymchwil helaeth, dryswyd cynlluniau oherwydd cyfyngiadau ym maes yswiriant, a dim cynnig posib ar y farchnad a fyddai'n gweithio. Yn y pen draw, penderfynwyd y bydd AAT yn rhan o gynllun rhannu ceir Cymru gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Cowheels. Mae gan Cowheels brofiad da yn y diwydiant ac maen nhw'n darparu'u hyswiriant a gwiriadau gyrwyr eu hunain syn ateb y problemau roedd AAT yn eu hwynebu, a gallant ganiatâu i glwb ceir gael ei sefydlu. Bydd y fenter hon yn lansio yn y gwanwyn. AAT yw un o'r saith cynllun ceir cymunedol i gael eu hariannu dan y dyfarniad Loteri Genedlaethol o £500,000 ar gyfer prosiect Gwefru Cymru.

Ymgynghorwyd â'r gymuned leol a grwpiau ynghylch beth hoffen nhw ei weld yn cael ei gynnwys yn Hwb y Gors ac unrhyw offer, gwasanaethau a gweithgareddau sy'n brin yn yr ardal y gallen nhw fod ei angen. Amlinellir yr holl fanylion yn yr Adroddiad Astudiaeth Cymuned ac Artistiaid, a cheir cysylltiadau a syniadau yn y ffeiliau prosiect.

| 2. Deilliannau Prosiect yn ôl y cais | A gyflawnwyd hyn? Pa dystiolaeth i gefnogi llwyddiant sydd ar gael? Os na lwyddwyd, pam? |
|---|---|
| Cynnal astudiaeth sgopio i ddatblygu ac integreiddio'r gymuned a'r elfen gelfyddydol yn Hwb y Gors. | Do, cafodd y gymuned eu hymgysylltu'n dda a chynhyrchodd Emma'r adroddiad Celfyddydau a Chymuned a'r adroddiadau trafnidiaeth y gellir cyfeirio atynt. Ffurfiwyd rhestr gyswlltgref a rhai cyfleoedd a syniadau ar gyfer Hwb y Gors. |
| Ymgymryd ag ymgynghori eang â'r gymuned, artistiaid a chrefftwyr ar draws y rhanbarth. | Gwnaed gwaith ymgynghori ar ffurf ymgysylltu o ddrws i ddrws, taflenni, sefydlwyd tudalen Facebook Hwb y Gors sydd bellach wedi denu 400 o ddilynwyr Negeseuon e-bost a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Ffurfiwyd a chofnodwyd syniadau a phwyntiau croesi. |
| Adeiladu rhwydweithiau yn y sector gelfyddydol i sicrhau fod cyfleusterau a rhaglenni'n cwrdd ag anghenion artistiaid proffesiynol, amatur a chymunedol. | Ffurfiwyd rhwydweithiau yn y sector gelfyddydau, gan gynnwys Canolfan Gelfyddydau Pontardawe, Celf yng Nghwm Tawe, Artists & makers Emporium, darparwyr gweithgareddau celf ac artistiaid lleol. Gellir gweld pob cyswllt a thystiolaeth yn yr adroddiad ac yn ffeiliau Hwb y Gors. |
| Marchnata – cefnogi datblygu gwefan, cynyddu amlygrwydd / hybu blog / gwefan | Adnabu Emma elfennau oedd angen eu cynnwys mewn gwefan i gefnogi gwaith AAT i'r dyfodol. Crëwyd rhestr o ofynion ac ymgynghorodd Emma â 4 dylunydd gwefan nes dod i'r penderfyniad y dylai'r gwaith fyd i Copperbay Creative sy'n gweithio ar y wefan newydd. Sefydlwyd a rheolwyd tudalen Facebook Hwb y Gors gan Emma. Mae Emma hefyd wedi codi proffil Hwb y Gors gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau marchnata. |
| Cyfrannu at y Cynllun Gweithredu: Datblygu strategaethau a rhaglenni Addysg, Celfyddydau, Menter, Cymunedol ar gyfer Hwb Y Gors. | Dogfennwyd a thrafodwyd rhai cyfleoedd cadarn yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Bydd prosiect celf a threftadaeth Ein Milltr Sgwâr / Our Square Mile yn fodel da ar gyfer prosiectau i'r dyfodol, Gwnaed cysylltiadau i ddarparu gweithdai, dosbarthiadau crefft a gweithdai celf. Gwnaed cysylltiadau cerdd a dawns i ddarparu'r math hwn o weithgarwch. Cymerodd rhai grwpiau ran drwy gydol y prosiect gan gynnwys mewnbynnu i gynllunio'u hystafelloedd, fel Urdd y Troellwyr a Gwehyddwyr. Mae Emma wedi gweithio gyda'r swyddog addysg i drafod addysg a gweithgaredd i Hwb y Gors at y dyfodol. |

3. Llwyddiannau strategol: (amlinellwch beth mae’r prosiect wedi’i gyflawni o ran unioni â Themâu a Blaenoriaethau LEADER ac unrhyw gyfraniad at strategaethau cenedlaethol – 300 max)

Thema: Blaenoriaeth:

**CPT Hygyrch**: Gwella mynediad i wasanaethau sylfaenol gan ystyried ffyrdd newydd, arloesol a chynaliadwy o gefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu potensial llawn.

**CPT Arloesol**: Creu amgylchedd arloesol sy’n cynnal ac annog twf busnesau newydd a phresennol micro a chymdeithasol o fewn i CPT.

**CPT Gwyrdd**: Gwneud y gorau o’r potensial sydd gan yr economi werdd yn CPOT gan gynnwys datblygu pob agwedd ar ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol a hybu eco-dwristiaeth.

Cynlluniwyd Hwb y Gors i fod yn adeilad hygyrch sy’n cynnwys cyfleusterau da ar gyfer newid oedolion. Oherwydd Covid a Brecsit, mae amseroedd cyflenwi cerbydau wedi cael eu hoedi ond mae cerbyd hygyrch wedi’i archebu i helpu i ateb anghenion trafnidiaeth hygyrch yn yr ardal.

Mae Hwb y Gors eisoes yn llwyddo i greu amgylchedd arloesol drwy ymgysylltu ac adnabod syniadau a’u cefnogi. Hefyd, drwy syniadau cymunedol i Hwb y Gors pan fydd ar agor. Mae gan Steven Holloway syniadau i gychwyn busnes digwyddiadau lleol adloniant i blant yn y dyfodol, ac fe wnaethon ni gefnogi’i ddigwyddiad Calangaeaf. Gweithiodd ein rheolwr ymgysylltu law yn llaw â Steve a helpu i drosglwyddo gwybodaeth am ddigwyddiadau. Mae’r gymuned wedi bod yn llawn o syniadau arloesol ar gyfer Hwb y Gors, y gellir eu datblygu ymhellach ar ôl iddo agor. Mae’r prosiect yn arloesol ynddo’i hun ac mae wedi mynd ar ofyn masnachwyr ac arbenigedd lleol. Rydym wedi bod yn ganolog mewn helpu i ennill y cyllid ar gyfer y cynllun trafnidiaeth ar gyfer ein prosiect rhannu ceir newydd a fydd yn fenter newydd sbon. Rydyn ni’n cael cefnogaeth Swyddog Cefnogi Busnes Cyngor CPT i ymgysylltu â darpar fusnesau a defnyddwyr.

O ran gwneud yn fawr o economi werdd CPT, mae Hwb y Gors yn waith adnewyddu carbon-sero, gan gynnwys solar, morter calch, pwmp gwres daearol, a deunyddiau adeiladu cynaliadwy. Mae Hwb y Gors o fewn pellter cerdded / gyrru i fferm wynt AAT. Yn y tymor hir, ceir cynlluniau i gynnal tripiau i’r fferm wynt gan ysgolion, colegau a thwristiaeth werdd. Fe wnaethon ni roi’r syniad hwn ar brawf gyda’n digwyddiad Wythnos Fawr Werdd, ble aethon ni â gwesteion ar ymweliad â’r fferm wynt. AAT yw’r elusen solar ar doeau mwyaf yn y DU. Mae AAT wedi gosod solar ar ysgolion ac adeiladau cymunedol lleol yn ogystal â Hwb y Gors. Mae AAT yn darparu gwaith i osodwyr solar, ICE solar, ar gyfer gwaith Hwb y Gors ac Egni. Mae AAT wedi darparu gwaith i fasnachwyr lleol eraill sy’n arbenigo mewn technegau adeiladu cynaliadwy gan gynnwys morter calch a phren eco ar gyfer ffenestri a drysau.

Bydd Hwb y Gors yn begwn ar gyfer ynni adnewyddadwy, y celfyddydau ac addysg. Rydym wedi cysylltu ag ysgolion a cholegau sy’n edrych am gyfle i ddefnyddio Hwb y Gors i bwrpasau addysg amgylcheddol pan fydd wedi’i gwblhau. Rydym wedi derbyn un car trydan a beic i fynd at ein cynllun ar gyfer cynllun car cymunedol trydanol, a byddwn ni’n lansio hyn. Bydd Hwb y Gors ei hun yn hwb trafnidiaeth gwledig gyda phwyntiau gwefru a sawl dewis teithio cynaliadwy ar y safle.

Bydd y gwefru trydan yn cael ei gynnal gan y paneli solar. Yn ystod cyfnod y swyddog ymgysylltu yn ei swydd, ffurfiwyd perthynas â Hinsawdd Cymru a ddefnyddiodd y prosiect i dynnu sylw ad waith adeiladu cynaliadwy.

Fe wnaethon ni bartneru ar hybu a gwneud digwyddiadau ar gyfer Wythnos Fawr Werdd ac roeddem yn rhan o weithgaredd COP 26. Fe wnaethon ni hybu a rhannu wythnos Hinsawdd Cymru a COP Cymru Llywodraeth Cymru. Drwy gyfrwng y dudalen Facebook, rydym wedi bod yn hybu deunyddiau adnewyddadwy a gall ein dilynwyr ddilyn y gwaith adnewyddu a'r technegau ar ein tudalen Facebook. Mae ein rheolwr ymgysylltu hefyd wedi bod mas i siarad â grwpiau ac ysgolion am Hwb y Gors, fferm wynt AAT a thrafnidiaeth drydan.

4. O ran eich sylwadau adeg ymgeisio, sut ydych chi wedi rheoli'r prosiect hwn o ran cynaliadwyedd? (Pa gynlluniau a roddwyd yn eu lle i gynnal y prosiect ar ôl ei gwblhau?)

'Byddwn ni'n cynnal ystod o weithgareddau, gan ddwyn o gof bob amser i beidio â dyblygu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal, ond yn hytrach i ymateb i fylchau mewn darpariaeth. Nifer cyfyngedig o leoliadau swyddfa sydd ar gael i'w rhentu yn yr ardal, ac oherwydd pandemig Covid, mae pobl yn gynyddol yn gweithio o gartref ac yn chwilio am leoliadau swyddfeydd ag offer gerllaw. Prin yw'r lleoliadau yn y gymuned sy'n hygyrch i o bobl ag anableddau (yn enwedig â chyfleusterau newid i oedolion) a chyfyng hefyd yw'r gweithgareddau ar gyfer pobl fregus, iau a hŷn yn ogystal â gweithgareddau ar gyfer pobl o oedrannau gwahanol. Mae newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn cael mwy o ymwybyddiaeth ar y cwricwlwm ac er eon bod ni eisoes yn cynnal sawl ysgol yn ein fferm wynt, bydd cael lle i gynnal ystafell ddosbarth yn Hwb y Gors yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r ymweliadau hyn. Prin iawn yw'r cyfleoedd creadigol yn yr ardal, gan gynnwys cyrsiau, gofod stiwdio a / neu logi offer, fel ffyrnau clai, creu printwaith, tecstilau, torwyr laser, argraffwyr 3D. Rydyn ni'n gweithio gyda grwpiau ledled Cymru i ddatblygu cynllun drafnidiaeth gymunedol a bydd gennym geir a beics trydan wedi'u lleoli yn yr Hwb. Byddwn hefyd yn buddsoddi egni sylweddol ar adferiad ar ôl Covid, gan adnabod meysydd allweddol ar gyfer cefnogaeth gan gynnwys clybiau gwaith cartref, mentora busnesau bach, ymwybyddiaeth iechyd meddwl a grwpiau cefnogi ar gyfer pobl ag anghenion arbennig.'

Rydym ni wedi cyflawni'r amcanion hyn drwy gyfrwng y cysylltiadau a wnaed â Hygyrchedd Powys a phartneriaeth bosib ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at yr adroddiad cymuned a chelfyddydau. Mae'r rheolwr ymgysylltu wedi cysylltu â Baby Love a School of Rock er mwyn darparu dewisiadau ar gyfer plant iau a phlant hŷn. Mae'r rhain hefyd ill dau'n newydd sbon ar gyfer yr ardal leol. Gwnaed cyswllt ag elusen Credu a hoffai ddefnyddio Hwb y Gors. Mae Maria Whittaker, Hygyrchedd Powys yn darparu dosbarthiadau crefftau a phob ar gyfer galluoedd cymysg. Mae gennym gynllun i gynnwys gwersi Cymraeg i deuluoedd a gwnaed cyswllt er mwyn darparu'r opsiwn hwn hefyd. Rydym wedi bod yn ymchwilio a chynllunio'r clwb rhannu car a beic trydan, a bydd hwn yn lansio yn ystod y gwanwyn 2022. Mae'r Swyddog Ymgysylltu wedi creu rhestr o artistiaid, gweithgareddau a darparwyr gweithdai lleol a fyddai'n berthnasol i Hwb y Gors at y dyfodol. Mae hi hefyd wedi edrych ar amryw syniadau a chyfleoedd cyllido ar gyfer y dyfodol. Cafodd y gymuned leol, busnesau a grwpiau lleol gyswllt da â Hwb y Gors. Bydd y ganolfan yn agor ym mis Medi 2022 i gyd-fynd â chanmlwyddiant agor hen ysgol Cwm-gors, ac i goffau'r digwyddiad hwnnw, gan mai dyma bellach fydd safle Hwb Y Gors.

5. Pwy fydd yn elwa o'r prosiect

Nod ymgysylltu: 30 rhanddeiliad. Targed go iawn a gyrhaeddwyd: 50 rhanddeiliad

Dichonolrwydd ac ymgynghori

Swyddog Ymgysylltu i helpu i fynd â'r prosiect yn ei flaen a sicrhau fod y gymuned wedi ymgysylltu'n llwr â datblygu'r safle.

Ar ôl gwneud gwaith ymchwil helaeth yn yr ardal leol gyda'r gymuned yng Nghwm-gors, GCG, Tairgwaith, Ystradgynlais, Ystalyfera, Pontardawe. Canolbwyntio ar y gymuned gelfyddydol leol, llwyddwyd i greu perthynas dda â rhai a chael rhai syniadau da ar gyfer Hwb y Gors, gan helpu i gyflawni targedau niferoedd sy'n ymgysylltu â Hwb y Gors. Mae hefyd sawl cyfle ar gyfer trawstorri o ran gwaith rhwng sefydliadau amrywiol y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn.

Defnyddiais aml i strategaeth er mwyn ymgysylltu â'r gymuned ac artistiaid lleol a'r gymuned gelfyddydol, gan gynnwys ymgysylltu o ddrws i ddrws, rhoi taflen i bob cartref yng Nghwm-gors a phob busnes lleol, anfon negeseuon e-bost, ffonio, ymweld â sefydliadau a grwpiau perthnasol, sgyrsiau mewn cyfarfodydd grwpiau cymunedol, tudalen Facebook Hwb y Gors, grŵp a Messenger; y wefan bresennol a sianelau Twitter AAT / Egni. Mae ein tudalen a grŵp Facebook wedi diweddaru ein dilynwyr ynglŷn â'r gwaith adnewyddu, Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 cyfnewidiol dros y 6 mis diwethaf mae tudalen a grŵp Facebook newydd Hwb y Gors a sefydlais wedi bod yn ddefnyddiol iawn, ac mae gennym ymgysylltiad da â'r dudalen. Mae gan y dudalen ryw 400 'hoffi' ar hyn o bryd, ac mae 480 o bobl yn ei ddilyn.

O dderbyn data dadansoddi Facebook, rydym wedi bod yn ymgysylltu'n gyson â thros fil o bobl y mis. Gellir gweld dadansoddiadau data Facebook Hwb y Gors o fis Mehefin – Rhagfyr 2021 yma yn SharePoint:
https://awelcoop.sharepoint.com/:f:/s/AwelAmanTawe/EuOqrnzlz_9NpoZXIJFW5M0B72iaCI7oYGT65M7psE4hsw?e=6lEMaF

Rwyf hefyd wedi cofrestru a bod yn bresennol yn unrhyw gyfarfodydd ar lein i rwydweithio a chreu cysylltiadau. Rwyf wedi ymgymryd â rhai cyfarfodydd rhwydweithio ac ymweliadau canfod ffeithiau / syniadau â sefydliadau oedd yn berthnasol.

Astudiaethau ac Adroddiadau

Cynnal astudiaeth graffu ddofn ac eang i ddatblygu ac integreiddio'r gymuned a'r elfen gelfyddydol o fewn Hwb y Gors, Canolfan Gelf, Menter ac Addysg carbon sero ym Mlaenau Cwm Aman / Tawe. Y rôl fydd ymgysylltu ag unigolion, grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol creadigol a sefydliadau celfyddydol; archwilio partneriaethau; adnabod sut y gall y ganolfan gwrdd ag anghenion y gymuned a'r sector greadigol yn yr ardal hon orau.

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at: Adroddiadau Cymuned ac Astudio'r Celfyddydau a Thrafnidiaeth.

Drwy gydol fy ngwaith ymgysylltu, rwyf wedi casglu syniadau gan y gymuned a ffynonellu dewisiadau perthnasol i roi dewisiadau ar gyfer unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol, Rwyf wedi creu rhestr gyswllt dda o aelodau'r gymuned a ymgysylltwyd a darparwyr / grwpiau

gweithgareddau a fydd yn berthnasol i Hwb y Gors yn y dyfodol, Rwyf wedi ymweld â chanolfannau cymuned lleol, grwpiau, ysgolion, colegau, clybiau rygbi, busnesau yn yr ardal leol, ac wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw; manylion yn yr adroddiad atodedig.

Ymysg Grwpiau / Sefydliadau / Artistiaid / Darparwyr Gweithgareddau a Gweithdai a Ymgysylltwyd mae:

Canolfan Gelfyddydau Pontardawe, Celf yng Nghwm Tawe, Celf i Bawb, Urdd y Troellwyr a'r Gwehyddwyr, Mess Up The Mess,

Leanne Vaughan- Phillips artist lleol, Jessica Lerner – hyrwyddwr symud a dawns

Adeiladwyd perthynas dda â busnesau lleol yng Nghwm-gors, sydd o'r farn y bydd Hwb y Gors o fudd i'r ardal Mae perchnogion y Queen of hearts, wedi dod yn 'Gyfeillion Hwb y Gors,' ac maen nhw'n awyddus i gymryd rhan. Mae'r clwb rygbi lleol wedi hybu a derbyn taflennu, fel pob un o'r busnesau lleol.

Rwyf wedi codi proffil Hwb y Gors drwy greu a defnyddio'r dudalen Facebook newydd yn weithredol. Defnyddiais sianelau Twitter Awel ac Egni. Mae gan y dudalen Facebook dros 450 'hoffi' ac mae'n mwynhau cefnogaeth dda; mae ymgysylltiad yn gryf.

Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Cymuned ac Artistiaid ar y Gymuned Gelfyddydol leol y bu i mi ymgysylltu â nhw. Yn eu plith mae The Artists and Makers Emporium, siop a sefydlwyd gan yr artist lleol Julia Harris. Mae'r siop yn gasgliad o waith gan artistiaid lleol, ac rwyf wedi ymgysylltu â Chanolfan Wirfoddolwyr  Ystradgynlais (YVC). Y rheolwr a Becky, y swyddog Celfyddydau ac addysg newydd. Crefftwyr lleol Carol Gordan ac Ali Rodwell sef 'The crafty girls.'

Rwyf wedi ymgysylltu ag aelodau o Lido Brynaman, ac rydyn ni'n rhannu postiadau ein gilydd ar Facebook. Mae AAT yn cynghori ar eu cynnig cyfranddaliadau newydd, ac rydym wedi adeiladu perthynas weithio dda. Rwyf wedi ymgysylltu â Chanolfan y Mynydd Du, yn bennaf i ddysgu am yr hyn a gynigir ganddynt, er mwyn gallu cynnig rhywbeth gwahanol. rwyf wedi ymweld â phob canolfan gymunedol leol a dysgu beth maen nhw'n ei gynnig, ac ymgysylltu â nhw gan gynnwys Canolfan Gymunedol Ystradowen ac ymweliadau rheolaidd â Chanolfan Gymunedol Cwmllynfell. Mae'r tri wedi bod yn lleoliadau ad ar gyfer rhai o'm cyfarfodydd cymunedol.

Am fod cyn lleied o gyfleusterau hygyrch yn yr ardal leol, y cynllun yw gwneud Hwb y Gors yn adeilad hygyrch, sy'n cynnwys cyfleusterau da i newid oedolion, ac ystafell ymolchi. Byddai'n dda hefyd gallu darparu gweithgareddau ar gyfer ystod o amrywiaethau. Cysylltais â Hygyrchedd Powys (sydd hefyd yn gweithio yn ardal Castell-nedd) ac rwyf wedi adeiladu perthynas â  Maria Whittaker Prif Weithredwr Hygyrchedd Powys, gan fod i sawl cyfarfod yn eu swyddfa yn Aberhonddu. Mae Maria'n darparu gweithgareddau celf a chrefft a byddai hi'n awyddus i ddod â defnyddwyr i Hwb y Gors a darparu gweithgareddau hygyrch. Mae Tammy Lancaster, o elusen Credu yn gyswllt cyffredin rhyngom. Cwrddais sawl tro â Tammy i drafod cael aelodau o Credu (elusen gofalwyr) i ddefnyddio'r hwb, a hefyd ymgysylltais â'r cynrychiolydd lleol, Sianny â'r syniad hwn. Soniwyd am sawl syniad fel dosbarthiadau pobl hygyrch,  gweithgareddau crefft, gweithgareddau amgylcheddol.

Yn ystod fy ngwaith ymgysylltu ymwelais â rhai safleoedd perthnasol i weld eu darpariaeth ar gyfer unrhyw syniadau; ymysg mannau a ymwelwyd oedd: Cymuned FAN Castell-nedd, YVC Ystradgynlais, Canolfan Amgylcheddol Abertawe, Gardd Gymunedol Abertawe, Canolfan Lesiant Abertawe, Elysium, orielau amrywiol ledled Abertawe a Chastell-nedd.

Drwy gyfrwng y dudalen Facebook a gwaith ymgysylltu o ddrws i ddrws, ymgysylltais â'r gymuned drwy holi am eu hatgofion a'u straeon am Hwb y Gors. Fe wnaethon ni bostio rhai hen luniau a gofyn am i ragor gael eu hanfon. Cafwyd ymgysylltiad da â hyn. Mae'n amlwg fod yr hen ysgol yn annwyl gan y gymuned, a'i bod yn falch ei bod yn dod yn ôl at ddefnydd y gymuned. Gwnes chwiliad am gyn-ddisgyblion gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac rwyf wedi creu rhestr o gyn-ddisgyblion. Y cynllun yw darparu gweithgareddau ar ôl i'r hwb agor i ddathlu cyn-ddisgyblion yr ysgol. Fe rannon ni lawer o luniau cymunedol (gyda chaniatâd) a chawsom ymgysylltiad da gyda'r fenter hon. Rydyn ni'n dal i fwynau'r sylwadau ar Facebook am atgofion a straeon am yr hen ysgol.

Mae gennym gynlluniau i gasglu straeon drwy gyfrwng prosiect Ein Milltir Sgwâr a dal y rhain i greu cynlluniau.

Yn ystod y prosiect rwyf wedi ymgymryd ag astudiaeth bellgyrhaeddol o glybiau rhannu trafnidiaeth drydanol a'r llwyfannau rhannu a'r dechnoleg sydd ar y farchnad. Helpu i greu cynllun ar gyfer clwb rhannu car trydan yn y dyfodol.

6. Themâu sy'n Croestorri: os yn berthnasol, disgrifiwch yn gryno sut y cyfrannodd eich prosiect at y themâu canlynol:

Cyfleoedd Cyfartal:

Cynnwys pawb o'r gymuned ar draws pob amrywiaeth a gallu.

Datblygu Cynaliadwy gan gynnwys Economaidd, Amgylcheddol a Chymdeithasol

Mae Hwb y Gors yn brosiect adnewyddu carbon-sero.

Taclo Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol:

Creu Hwb ar gyfer yr ardal gyda chaffi cymunedol, cynlluniau ar gyfer 'prydau bwyd cymunedol talwch faint allwch chi'

7. Crynodeb Canlyniad: Rhowch grynodeb ar berfformiad y prosiect os gwelwch yn dda, gan nodi unrhyw faterion allweddol sydd angen mynd i'r afael â nhw:

a) Crynodeb

Bu'r prosiect yn llwyddiannus o ran ymgysylltu â'r gymuned leol a chreu rhestr gyswllt dda o blith y gymuned gelfyddydau leol, gan ffurfio syniadau y gellir eu cario i'r dyfodol.

b) Materion allweddol

Cyfyngiadau Covid-19 newidiol, ond daethpwyd o hyd i ffyrdd o gwmpas hyn drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac amrywiaeth o offer.

c) Beth aeth yn dda?

Digwyddiadau ac ymgysylltu. Rhoddwyd cefnogaeth dda i ddigwyddiadau a llawer yn mynychu. 400+ yn hoffi ar y dudalen Facebook

d) Beth aeth ddim yn dda?

Bu trafnidiaeth yn her, ond oherwydd problemau yswiriant

e) Beth allai fod wedi cael ei wneud yn wahanol?

Mae lle i ddysgu bob amser, a gellir asesu llawer ar ddiwedd prosiect, serch hynny rwy'n meddwl ein bod ni wedi llwyddo, o dan yr amgylchiadau, i gyflawni ein hamcanion yn dda.

8. I'W GWBLHAU GAN Y CORFF SY'N ARWAIN:

Perfformiad y Prosiect – Llwyddiannau Ariannol a Dangosyddion: (perfformiad manwl yn wyneb amserlenni a gymeradwywyd a disgwyliadau cyllideb, gan gynnwys rhesyma dros bob amrywiad)

a) Llwyddiant dangosyddion perfformiad yn wyneb targedau a gymeradwywyd: safle terfynol

Cyfeirnod PI

Targed a Gymeradwywyd

Cyfanswm

Cyflawnwyd

Cyfiawnhad dros dangyflawni

Sut y rhoddwyd tystiolaeth am lwyddiant

R.24

Nifer o Swyddi a Grëwyd

1

1

Llythyr cadarnhau

LD.CL.005

<u>Nifer o Hybiau Cymunedol</u>

1

1

Lluniau, adroddiadau

LD.CL.006

Nifer o weithredoedd lledu gwybodaeth / gweithgareddau hyrwyddo a / neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r LDS a / neu'i brosiectau

5

8

Straeon, cyfryngau cymdeithasol, gwefan

LD.C.L007

Nifer o randdeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw

30

50

Cofnodion, lluniau, negeseuon e-bost

NPT01

Nifer o gymunedau yr ymgysylltwyd â nhw

2

3

Ymweliadau a thystiolaeth am ymgysylltu

NPT08

Nifer prosiectau a anelwyd at welliannau amgylcheddol / cynaliadwyedd

1

1

Darparwyd briff yn amlinellu gwelliannau (NPT08)

NPT11

Nifer cynlluniau trafnidiaeth gymunedol

1

0

Cynllun i gychwyn yn y gwanwyn 2022

b) Gweithgareddau / Prosiectau Peilot: Yn amlinellu pob cam a gweithgaredd, gan gynnwys yr amserlenni

I hybu'n allanol a chysylltu â Gwefan Rhwydwaith Wledig Cymru

Atodwyd ☐

Amherthnasol ar gyfer y prosiect hwn  x

c) Astudiaethau Dichonolrwydd: I hybu'n allanol a chysylltu â Gwefan Rhwydwaith Wledig Cymru

Atodwyd 

Amherthnasol ar gyfer y prosiect hwn  x

d) Cau'r Prosiect Sefyllfa Ariannol yn erbyn y gwreiddiol a gymeradwywyd: (ar ôl gwneud yr hawliad terfynol)

Gwreiddiol a Gymeradwywyd

Addaswyd a Gymeradwywyd

Dyddiad Cau Terfynol

O

I

31 Rhagfyr 2021

Amserlenni

Mehefin 2021

Rhagfyr 2021

e) Crynodeb o Berfformiad Ariannol

Gwreiddiol a Gymeradwywyd

Addaswyd a Gymeradwywyd

Hawliad Terfynol

Cyfanswm Costau'r Prosiect

27,600

27,600

Cyllid RDP

22,600

22,080

Cyllid a Liferwyd

5000

5520

% RDP

Cyfraddau Ymyrryd

% Cyfatebol

Pennawd Cost

Cyfiawnhad am y tan/gorwariant

Gor/tanwariant

9. Manylion cyswllt trosglwyddo: Ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso wedi'r prosiect, bydd angen manylion cyswllt staff a allai ddarparu cymorth ar Lywodraeth Cymru.

Enw: Dan Mccallum

Swydd: Cyfarwyddwr

E-bost: dan@awel.coop

Rhif ffôn: 07590 848818

Cyfeiriad y wefan:

tudalen Facebook: www.facebook.com/hwbygors

Gweithdrefnau Cadw Dogfen: Rhaid cadw dogfennau (sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'ch prosiect) mewn fformat addas am gyfnod o 10 mlynedd ar ôl diwedd y rhaglen LEADER bresennol – mae hyn yn golygu tan o leiaf 2031.

Llofnodwyd:

Dyddiad: 19/1/2022

Llofnodwyd: B.Blackmore (Swyddog RDP – Corff sy'n arwain)

Dyddiad: 12.01.22

Gweithgareddau Wedi'r Prosiect gan y Bartneriaeth Leol a'r Grŵp Gweithredu Lleol:

Diffiniwch pa weithgareddau sydd angen eu gwneud gan y Corff sy'n Arwain ar ôl i'r prosiect gael ei gau; cynhwyswch unrhyw weithredoedd olynol wedi'r prosiect a allai fod angen eu gwneud ar ôl i'r prosiect gau: